Ysgol Penrhyn-coch

Wedi blwyddyn dra llwyddiannus ym myd hwaraeon bu'r bechgyn yn tadlu yng nghystadleuaeth d y cylch ddiwedd tymor yr haf a chyrraedd y brig unwaith eto. Llongyfarchiadau cynnes i chwi.

Treuliodd plant dosbarth 1 a 2 brynhawn hwyliog yn Theatr y Werin ar 30 Mehefin yn gweld cynhyrchiad o Rwtsh Ratsh Rala Rwdins gan Gwmni'r Arad Goch. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr.

Aeth dosbarth 4 i Ddydd Agored y Fridfa Blanhigion un bore. Diddorol oedd gweld yr amrywiaeth gwaith sy'n digwydd ar garreg ein drws. Ein diolch diffuant i'r gweithwyr fu'n ein tywys o gwmpas ac egluro'r cyfan i ni mor ddeheuig.

Cynhaliwyd Chwaraeon Potes yr Urdd Cylch Aberystwyth ym Mhenrhyn-coch ar 21 Mehefin a bu 17 o dimau yn cystadlu. Braf oedd gweld cymaint o blant yn mwynhau'r gemau rhyfeddol a drefnwyd ar eu cyfer. Wedi cystadlu brwd, Ysgol Plascrug oedd yn fuddugol, Rhydypennau yn ail a Phenrhyn-coch yn drydydd. Llongyfarchiadau cynnes i'r enillwyr ac i bawb a gystadlodd.